Sesiwn 1: MENYWOD A GWAITH BODDHAOL: BETH YW GWAITH BODDHAOL?

Ystod oedran: 14–19

<table>
<tr><td colspan="2">Amlinelliad
Bydd dysgwyr yn trafod beth sy'n gwneud gwaith yn foddhaol ac yn dod i ddeall bod menywod yn wynebu rhwystrau wrth geisio cael mynediad i waith boddhaol, sy'n arwain at anghydraddoldeb rhwng dynion a menywod.</td></tr>
<tr><td>Amcanion dysgu
• Ystyried cysyniad gwaith boddhaol.
• Deall bod rhywedd yn effeithio ar allu menywod i gael mynediad i waith boddhaol.
• Meddwl yn feirniadol am y rhesymau pam nad oes gan ddynion a menywod fynediad cyfartal i waith boddhaol.</td><td>Deilliannau dysgu
• Caiff dysgwyr eu cyflwyno i gysyniad gwaith boddhaol a chânt gyfle i'w ystyried, yng nghyd-destun eu bywydau eu hunain ac mewn cyd-destun byd-eang.
• Bydd dysgwyr yn deall bod rhywedd yn effeithio ar allu menywod i gael mynediad i waith boddhaol.
• Bydd dysgwyr yn defnyddio sgiliau meddwl yn feirniadol i ddeall sut y mae rhywedd yn effeithio ar fynediad menywod i waith boddhaol.</td></tr>
<tr><td>Cwestiynau allweddol
• Beth yw gwaith boddhaol?
• Sut y mae rhywedd yn effeithio ar fynediad i waith boddhaol?</td><td>Adnoddau
• Sioe sleidiau Gwaith Boddhaol i Fenywod (sleidiau 2-6)
• Taflenni adnoddau:
1. Cardiau chwarae rôl y gêm gwaith boddhaol
2. Ffactorau gwaith boddhaol
3. Ffactorau gwaith boddhaol, yn ôl rhyw</td></tr>
<tr><td colspan="2">Cysylltiadau â'r cwricwlwm</td></tr>
<tr><td colspan="2">Cymru
Bagloriaeth Sylfaen Cymru/Her Dinasyddiaeth Fyd-eang Genedlaethol Cyfnod Allweddol 4
• Deall a defnyddio dulliau a thechnegau gwneud penderfyniadau a datrys problemau
• Nodi a dadansoddi problemau neu faterion
• Nodi atebion neu ymatebion posibl a'r rhesymau dros wahanol safbwyntiau
• Gallu cyfiawnhau penderfyniadau
• Nodi a datblygu dadleuon</td></tr>
</table>

Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch gopïo'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

OXFAM

Gweithgaredd 1.1 (10 munud)

Dychmygu gwaith boddhaol

- Gofynnwch i ddysgwyr feddwl am eu gwaith eu hunain, yn awr neu yn y dyfodol. Mae'n bosibl bod gan rai ohonynt swyddi rhan-amser yn barod.
- Gofynnwch iddynt rannu'r ystod o swyddi y maent yn gyfarwydd â nhw yn eu bywydau pob dydd. Pa swyddi y mae'r bobl y maent yn byw gyda nhw neu'n eu hadnabod yn eu gwneud? Ysgrifennwch ddetholiad o'r swyddi hyn ar y bwrdd gwyn neu'r siart troi. Gofynnwch y cwestiynau: A yw'r rhain yn swyddi da? Os ydynt, pam? Beth sy'n gwneud y swyddi hyn yn werth eu gwneud?
- Dywedwch wrth y dysgwyr fod y syniad o waith boddhaol wedi'i gynnig gan y Sefydliad Llafur Rhyngwladol, sy'n un o asiantaethau arbenigol y Cenhedloedd Unedig, i helpu gwledydd i lunio gwell cyfreithiau ym maes cyflogaeth.[1] Ysgrifennwch 'Gwaith Boddhaol' ar y siart troi neu'r bwrdd gwyn a gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn grwpiau i nodi sut y byddai gwaith boddhaol yn edrych. Cofnodwch eu syniadau.
- Dangoswch sleidiau 3-6 o'r sioe sleidiau i'r dysgwyr a gofynnwch iddynt ddweud beth sy'n digwydd ym mhob sleid.
- Darllenwch yr wybodaeth sy'n cyd-fynd â phob sleid yn uchel i'r dysgwyr. A oes darn neu ddarnau o'r wybodaeth wedi'u synnu neu wedi achosi iddynt ailfeddwl am yr hyn sy'n gwneud gwaith yn foddhaol?

Gwahaniaethu

- Er mwyn gwneud y dasg yn haws: rhowch ystod o swyddi ac agweddau ar waith boddhaol i'r dysgwyr cyn dechrau'r gwaith grŵp
- Er mwyn gwneud y dasg yn anos: dosbarthwch yr wybodaeth o'r nodiadau sy'n cyd-fynd â'r sleidiau i'r dysgwyr a gofynnwch iddynt ei thrafod mewn grwpiau. Dylent roi adborth i'r dosbarth ar yr hyn y maent wedi'i ddysgu am y menywod hyn.

Gweithgaredd 1.2 (15 munud)

Beth sy'n gwneud gwaith yn foddhaol i fenywod ac i ddynion?

Nodir isod rai o'r ffactorau yr awgrymwyd eu bod yn gwneud gwaith yn dda neu'n foddhaol:

- Cyflog teg
- Y telerau cyflogaeth iawn (tâl salwch, gwyliau)
- Iechyd a diogelwch
- Cynnydd mewn gyrfa
- Cydbwysedd bywyd a gwaith
- Oriau rheolaidd, rhagweladwy
- Hyblygrwydd
- Cyfeillgarwch

[1] Edrychwch ar y dudalen we hon i gael rhagor o wybodaeth: www.ilo.org/global/topics/decent-work/lang--en/index.htm

Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch gopïo'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

- Parch gan gydweithwyr

Ysgrifennwch y ffactorau hyn ar siart troi neu fwrdd gwyn, ac ewch drwyddynt yn eu tro i sicrhau bod y dysgwyr yn deall goblygiadau pob un. Rhowch bum smotyn gludiog yr un i'r dysgwyr ac eglurwch fod ganddynt bum pleidlais yr un. Gofynnwch i'r dysgwyr osod eu smotiau wrth ymyl y ffactorau pwysicaf yn eu barn nhw. Caiff dysgwyr osod cynifer o smotiau ag y dymunant wrth ochr pob ffactor, yn dibynnu ar bwysigrwydd y ffactor iddynt.

- Trafodwch sut y mae'r dysgwyr wedi pleidleisio. Pa ffactorau oedd y pwysicaf yn eu barn nhw o ran gwaith boddhaol?
- Gofynnwch y cwestiynau hyn:
    - Yn eich barn chi, pa ffactorau sydd bwysicaf i ddynion a pha rai sydd bwysicaf i fenywod?
    - Pam yr ydych yn meddwl hynny?
- Nawr, gofynnwch i'r dysgwyr feddwl am eu gobeithion a'u hofnau o ran eu bywyd gwaith yn y dyfodol: Beth yr ydych yn gobeithio'i gael yn eich swydd yn y dyfodol? Beth yw eich ofnau o ran eich bywyd gwaith? Gallai'r dysgwyr rannu eu syniadau â phartner cyn trafod fel dosbarth cyfan.
- Mewn parau, dylai'r dysgwyr ysgrifennu rhestrau o'u prif obeithion ac ofnau o ran gwaith. Yna, gofynnwch iddynt ailadrodd y gweithgaredd, gan ddychmygu eu bod yn perthyn i'r rhyw arall.
- Caniatewch amser ar y diwedd i'r dysgwyr fyfyrio ar y gweithgaredd olaf hwn:
    - A oedd yna wahaniaethau rhwng gobeithion ac ofnau'r merched a'r bechgyn?
    - A oedd eich gobeithion a'ch ofnau'n wahanol pan oeddech yn dychmygu eich bod yn perthyn i'r rhyw arall?
    - A oedd pawb wedi nodi'r un gwahaniaethau? Beth, yn eich barn chi, allai egluro'r rheswm am y gwahaniaethau hyn? Yn eich barn chi, a yw hi'n deg bod angen i'r ddau ryw feddwl yn y ffyrdd gwahanol hyn?

Mae'n bosibl y byddwch am archwilio Gweithgaredd 1.2 a Gweithgaredd 1.3 isod o safbwynt pobl LGBT+ neu ystyried fframiau cyfeirio gwahanol. Gallech fod am gynnwys cwestiynau neu gymeriadau ychwanegol i gynrychioli amrywiaethau a phrofiadau eraill, neu annog cyfraniadau o bosibl gan fyfyrwyr y gall eu profiadau fod yn wahanol i brofiad y cymeriadau a gynrychiolir yng Ngweithgaredd 1.3.

Gweithgaredd 1.3 (20 munud)

Gêm chwarae rôl gwaith boddhaol

- Nawr, bydd y dysgwyr yn ystyried sut y mae pobl mewn gwahanol wledydd yn cael hyd i waith boddhaol. Gofynnwch i'r dysgwyr sefyll mewn rhes yn un pen o'r ystafell neu'r gofod gan eich wynebu. Rhowch un o gardiau chwarae rôl y gêm gwaith boddhaol (taflen adnoddau 1) i bob dysgwr ac eglurwch fod angen iddynt geisio dychmygu sut y byddai'n teimlo i fod y person hwnnw. Ar gyfer dosbarthiadau mwy, bydd angen i chi lungopïo'r adnodd hwn fwy nag unwaith a rhoi'r un cardiau i rai o'r dysgwyr.
- Eglurwch eich bod yn mynd i ddarllen rhai datganiadau yn uchel. Os bydd dysgwyr o'r farn y gallai eu cymeriad gytuno â'r datganiad, dylent gymryd un cam ymlaen. Os credant na fyddai eu cymeriad yn cytuno â'r datganiad, dylent aros yn eu hunfan. Anogwch ddysgwyr sy'n ansicr ynghylch sut y byddai eu cymeriad yn ateb i ofyn am gyngor gennych chi neu gan aelodau eraill o'r grŵp.

Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch gopïo'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

- Darllenwch y rhestr o ddatganiadau isod allan yn uchel. Mae'n bosibl y byddwch am addasu rhai o'r rhain, yn dibynnu ar y grŵp, y cyd-destun a'r amser sydd ar gael. Ym mhen hir a hwyr, bydd y dysgwyr wedi'u gwasgaru ar draws yr ystafell, yn ôl nifer y camau ymlaen y maent wedi'u cymryd.
    - Rwy'n cael cyfleoedd hyfforddiant yn fy ngweithle.
    - Mae gennyf y pŵer i ddylanwadu ar bobl yn fy nghymuned.
    - Gallaf ddibynnu ar fy rheolwr i'm cefnogi a'm trin yn deg.
    - Mae gennyf gynilion.
    - Mae gennyf bensiwn a'r hawl i absenoldeb salwch a thâl gwyliau.
    - Nid oes angen i mi boeni am iechyd a diogelwch yn y gwaith.
    - Mae gennyf ddigon o amser ac arian sbâr i fwynhau gweithgareddau hamdden gyda'm teulu a'm ffrindiau.
    - Rwy'n fodlon fy myd.
    - Gallaf fforddio mynd ar wyliau tramor o leiaf unwaith y flwyddyn.
    - Ymgynghorir â mi ar faterion sy'n effeithio ar fy mywyd.
    - Mae gennyf gydweithwyr y gallaf ddibynnu arnynt.
    - Mae siawns i mi wneud cynnydd o ran fy ngyrfa.
    - Mae fy nghydbwysedd bywyd a gwaith yn dda.
- Unwaith y byddwch wedi darllen yr holl ddatganiadau yn uchel, gofynnwch i'r dysgwyr aros yn eu hunfan a chyflwyno'u cymeriad i'r aelodau eraill o'r grŵp. Anogwch y dysgwyr i roi rhesymau dros eu penderfyniadau i gymryd nifer y camau a wnaethant.
- Eglurwch mai diben y gêm hon oedd rhoi amcan i'r dysgwyr o rai o'r anghydraddoldebau o ran gwaith a dylanwad sy'n bod yn ein cymdeithasau a rhwng gwledydd a'i gilydd. Mae rhai o'r anghydraddoldebau hyn yn eithafol, ac mae rhai yn seiliedig ar rywedd.
- Caniatewch amser i'r grŵp fyfyrio ynghylch y gêm. Mae cwestiynau trafod posibl yn cynnwys:
    - Pwy oedd y bobl a gafodd eu gadael ar ôl yn y gweithgaredd hwn (y rhai a gymerodd y nifer lleiaf o gamau ar draws yr ystafell)?
    - Beth, yn eich barn chi, allai fod y rhesymau dros yr anghydraddoldebau (y bylchau) a welwyd rhwng y gwledydd, y bobl neu'r grwpiau gwahanol? A oedd gwahaniaethau ar sail rhyw neu oed?
    - A oes anghydraddoldebau cysylltiedig a allai effeithio ar allu menywod i gael mynediad i waith boddhaol?
    - Yn eich barn chi, a yw'r anghydraddoldebau hyn yn deg?
    - A oedd yr anghydraddoldebau hyn yn effeithio ar allu unigolion i ennill yr arian yr oedd ei angen arnynt a chael bywyd sy'n dwyn boddhad?
    - Yn eich barn chi, pwy sy'n gyfrifol am wneud ein cymdeithas yn fwy cydradd?

Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch gopïo'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

Gweithgaredd 1.4 (20 munud)

Sut y mae gwaith boddhaol yn edrych i wahanol bobl?

- Rhannwch y dysgwyr yn grwpiau o dri neu bedwar. Rhowch set o gardiau chwarae rôl y gêm gwaith boddhaol (taflen adnoddau 1) a chopi o daflen adnoddau 2 i bob grŵp. Os byddai hynny'n well gennych, gallech arddangos y rhestr o'r ffactorau gwaith boddhaol a nodwyd gan y dosbarth yng Ngweithgaredd 1.1 yn hytrach na rhoi taflen adnoddau 2 iddynt. Gofynnwch i'r dysgwyr gydweithio i benderfynu ar y tri ffactor gwaith boddhaol sydd fwyaf perthnasol ar gyfer pob cymeriad, neu ddetholiad o gymeriadau, sy'n ymddangos yn y cardiau chwarae rôl.
- Gofynnwch i'r dysgwyr drafod eu canfyddiadau fel dosbarth. A oedd tebygrwydd neu wahaniaethau rhwng y rhestrau a ddewiswyd ar gyfer cymeriadau'r cardiau chwarae rôl? A oes gan bawb yr un gofynion o ran swyddi? A yw nodweddion gwaith boddhaol yn wahanol ar gyfer dynion a menywod?
- Gofynnwch i'r dysgwyr ymrannu i'w grwpiau eto, a rhowch gopi o daflen adnoddau 3 i bob grŵp. Mae'r daflen hon yn cynnwys y canfyddiadau o'r adroddiad ynghylch gwaith boddhaol ar gyfer gweithwyr ar gyflogau isel yn yr Alban.[2] Eglurwch y gofynnwyd i fenywod a dynion nodi'r ffactorau a oedd yn gwneud gwaith yn foddhaol iddynt.
- Gofynnwch i'r dysgwyr gymharu eu hatebion o'r gweithgaredd grŵp â'r canfyddiadau hyn. Gallent ystyried y cwestiynau canlynol: Pa debygrwydd a pha wahaniaethau sydd? Beth allai fod wrth wraidd y tebygrwydd a'r gwahaniaethau hyn? Beth y mae hyn yn ei olygu i fenywod sy'n ceisio cael mynediad i waith boddhaol, i ddynion sy'n ceisio cael mynediad i waith boddhaol, i gyflogwyr neu i'r llywodraeth?
- Gofynnwch i'r grwpiau fwydo'u canfyddiadau yn ôl i'r dosbarth cyfan.

Datblygu sgiliau Bagloriaeth Cymru

- Dyluniwch ffeithlun trwy lunio holiadur neu arolwg ar gyfer pobl yn eich ardal leol, ysgol neu deulu. Beth yw profiadau'r bobl yn eich ardal chi sy'n ceisio cael hyd i waith boddhaol? Gallai'r dysgwyr greu arddangosfa o swyddi yn eu hardal leol. Yn ogystal, gallai'r dysgwyr feddwl am wahaniaethau eraill sy'n effeithio ar fynediad pobl i waith boddhaol, fel oed, diwylliant, anabledd, ac ati.
- Gallai dysgwyr lunio'u ffeithlun rhywedd eu hunain gan ddefnyddio gwybodaeth o'u harolwg.
- Gofalwch fod yr holl ddata'n cael eu cadw'n ddienw er mwyn cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

Telerau defnyddio

Hawlfraint © Oxfam GB
Cewch ddefnyddio'r ffotograffau a'r wybodaeth gysylltiedig o'r adnodd hwn at ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Gyda phob defnydd, rhaid i chi gyfeirio at y ffotograffydd a enwir ar gyfer y ddelwedd honno ac at Oxfam. Ni chewch ddefnyddio'r delweddau a gwybodaeth gysylltiedig at ddibenion masnachol na'u defnyddio y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae'r holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn perthyn i'r dyddiad a'r amser y cynhaliwyd gwaith y prosiect.

[2] F. Stuart, P. Hartwig ac S. Wright (2016) Decent Work for Scotland's Low-Paid Workers: A Job to Be Done, Adroddiad Partneriaeth UWS-Oxfam â chymorth Sefydliad Ymchwil Cyflogaeth Prifysgol Warwick, Rhydychen: Oxfam GB, policy-practice.oxfam.org.uk/publications/decent-work-for-scotlands-low-paid-workers-a-job-to-be-done-619740

Cardiau chwarae rôl gêm y gwaith boddhaol Taflen adnoddau 1

Rydych yn ddyn sengl ac, ar ôl gyrfa lwyddiannus mewn busnes, rydych wedi dod yn Aelod Seneddol yn y Deyrnas Unedig. Mae gennych bopeth sydd ei angen arnoch.	Rydych yn wraig briod yn y Deyrnas Unedig. Mae gennych bedwar o blant. Mae'n anodd i chi gael hyd i swydd ag oriau gwaith sy'n caniatáu i chi godi a chasglu'r plant. Rydych yn gwneud gwaith gweinyddu i asiantaeth pan fydd yr oriau'n cyd-fynd â'ch anghenion.
Ar ôl gyrfa lwyddiannus mewn busnes, rydych chi nawr yn Aelod Cynulliad yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru. Rydych yn fam i ddau o blant. Mae gennych ddylanwad a gallwch fforddio popeth sydd ei angen arnoch.	Rydych yn bensaer benywaidd ym Mhalesteina. Rydych yn rhedeg eich busnes gwaith saer eich hun gan ddefnyddio paledau pren wedi'u hailgylchu. Mae'n anodd cael hyd i waith ym Mhalesteina, felly mae hwn yn gyfle i chi fod yn greadigol. Dydych chi ddim yn cael yr un incwm misol bob amser, ond rydych yn ymdopi.
Rydych yn weithiwr gofal benywaidd, yn gofalu am bobl oedrannus mewn cartref preswyl yn y Deyrnas Unedig. Cawsoch eich cyflogi trwy asiantaeth a drefnodd y swydd i chi. Mae eich cyflog yn llai na'r isafswm cyflog oherwydd goramser heb dâl; rydych yn aml yn gweithio rhwng 50 a 60 awr yr wythnos. Mae gennych ddau blentyn bach. Nid yw talebau gofal plant, a allai eich helpu i dalu am ofal plant, ar gael i chi.	Rydych yn weithiwr gofal gwrywaidd, yn gofalu am bobl oedrannus mewn cartref preswyl yn y Deyrnas Unedig. Cawsoch eich cyflogi trwy asiantaeth a drefnodd y swydd i chi. Mae eich cyflog yn llai na'r isafswm cyflog oherwydd goramser heb dâl; rydych yn aml yn gweithio rhwng 50 a 60 awr yr wythnos. Mae gennych ddau blentyn bach. Nid yw talebau gofal plant, a allai eich helpu i dalu am ofal plant, ar gael i chi.
Rydych yn rheolwr cronfa fantoli i gwmni ynni yn Unol Daleithiau America, sy'n rheoli asedau gwerth £3 biliwn. Rydych yn un o'r 25 o reolwyr cronfeydd mantoli cyfoethocaf yn y byd, sy'n golygu eich bod yn gyfoethog dros ben. Mae gennych ddwy ferch fach.	Rydych yn newyddiadurwr benywaidd yn y Deyrnas Unedig. Rydych wedi gweithio'n galed i gael eich swydd. Mae gennych ferch fach ac rydych yn gobeithio y bydd hi'n cael cyfleoedd tebyg. Rydych wedi ymuno â Chymdeithas Rhieni ac Athrawon ei hysgol i ymgyrchu dros fynediad gwell at bynciau STEM i ferched.

Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch gopïo'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

Rydych yn blymwr benywaidd yng Ngwlad yr lorddonen. Roeddech yn arfer bod yn wraig tŷ ond ar ôl hyfforddi i wneud gwaith plymwr, rydych yn rhedeg busnes yn awr ac yn trefnu cyfleoedd hyfforddi i fenywod eraill. Rydych yn mwynhau eich gwaith ac mae eich busnes yn gwneud yn dda.	Rydych yn blymwr gwrywaidd yng Ngwlad yr lorddonen. Rydych yn rhedeg busnes sydd wedi hen sefydlu ac yn gwneud yn dda.
Rydych yn rheolwr marchnata gwrywaidd yn y Deyrnas Unedig. Rydych chi a'ch partner newydd gael babi. Mae gennych hawl i gael pythefnos yn unig o absenoldeb tadolaeth. Byddech yn hoffi rhannu absenoldeb mamolaeth â'ch partner, ond nid yw eich cwmni'n caniatáu hynny.	Rydych yn rheolwr marchnata benywaidd yn y Deyrnas Unedig. Rydych chi ar absenoldeb mamolaeth ac ni chawsoch hyfforddiant tra oeddech i ffwrdd. Rydych chi wedi gofyn am gael gweithio'n rhan-amser ar ôl dychwelyd i'r gwaith ond gwrthodwyd eich cais.
Rydych yn ddyn sy'n oruchwyliwr mewn ffatri ddillad yn Fietnam. Mae gennych waith sefydlog ond rydych yn gweithio oriau hir iawn am eich cyflog sy'n ddigon i gynnal eich teulu.	Rydych yn weithiwr benywaidd mewn ffatri ddillad yn Fietnam sy'n cyflenwi cadwyn fawr o archfarchnadoedd yn y Deyrnas Unedig. Weithiau, rydych yn gweithio 10 i 12 awr y dydd am chwe diwrnod yn olynol. Nid yw'r gwaith yn sefydlog ac mae eich cyflog yn rhy isel ambell fis. Mae gennych berthnasau oedrannus i'w cynnal ac rydych yn rhoi rhywfaint o'ch cyflog iddynt.
Rydych yn gyfrifydd benywaidd yn gweithio i gwmni teithio rhyngwladol yn ninas Mumbai, India. Mae gennych fflat braf ac rydych yn byw yn eithaf da ar eich cyflog. Rydych yn ystyried dechrau teulu.	Rydych yn fenyw sy'n rheolwr cronfa fantoli i gwmni ynni yn Unol Daleithiau America, sy'n rheoli asedau gwerth £3 biliwn. Rydych yn un o'r 25 o reolwyr cronfeydd mantoli cyfoethocaf yn y byd ond mae'n anodd gwneud ffrindiau yn eich gweithle. Mae gennych ddwy ferch fach ond dydych chi ddim yn eu gweld bob dydd.

Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch gopïo'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

Rydych yn fam sengl i dri o blant ifanc ac yn byw yn y Deyrnas Unedig. Byddech yn hoffi gweithio ond dydych chi ddim yn gallu fforddio gofal plant. Rydych yn cael cymorth ariannol gan y llywodraeth ond cafodd y budd-daliadau hyn eu torri yn ddiweddar ac rydych yn poeni sut y byddwch yn talu'r biliau. Weithiau rydych yn mynd heb fwyd er mwyn i'ch plant gael digon i'w fwyta.	Rydych yn gyfrifydd gwrywaidd yn gweithio i gwmni teithio rhyngwladol yn ninas Mumbai, India. Mae gennych fflat braf ac rydych yn byw yn eithaf da ar eich cyflog. Rydych yn ystyried dechrau teulu.
Rydych yn athrawes yng Nghymru. Roedd arnoch eisiau bod yn athrawes erioed ond rydych yn teimlo'i bod yn anodd ymdopi yn ddiweddar gan fod costau byw yn cynyddu'n gynt na'ch incwm.	Rydych yn gweithio i fusnes arlwyo yn y Deyrnas Unedig. Mae gennych ddau blentyn bach ac rydych chi a'ch partner yn gofalu amdanynt. Mae gennych gontract dim oriau a gofynnwyd yn ddiweddar i chi brynu eich gwisg eich hun. Nid yw eich cyflogwr yn talu'r Cyflog Byw.
Rydych yn ariannwr benywaidd yng Nghaerdydd. Rydych wedi cael dau absenoldeb mamolaeth. Rydych chi wedi gweld dynion sy'n cydweithio â chi yn cael dyrchafiad i swyddi goruchwylio yn ystod eich absenoldeb mamolaeth. Mae gennych gontract rhan-amser nawr ac nid ydych yn cael fawr o hyfforddiant.	Rydych yn ariannwr gwrywaidd yng Nghaerdydd. Cawsoch eich dyrchafu ddwywaith ond gwyddoch fod y bwlch rhwng eich cyflog chi a chyflog eich rheolwr yn fawr iawn. Rydych newydd ymuno â'ch undeb.
Rydych yn weithiwr domestig benywaidd yn Kenya. Rydych yn teithio am awr bob dydd er mwyn gweithio yng nghartrefi pobl fwy cyfoethog na chi. Nid oes gennych hawl i dâl salwch na thâl am amser teithio. Rydych yn sefydlu grŵp gweithwyr i geisio dylanwadu ar y llywodraeth i gefnogi gwaith boddhaol.	Rydych yn ffermwr gwrywaidd yn Uganda. Rydych newydd gymryd cyfrifoldeb cyfartal dros ofalu am eich plant ac rydych yn rhannu gwaith y fferm â'ch gwraig. Rydych yn ennill digon o arian i ateb eich anghenion sylfaenol. Rydych yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd cymunedol.

Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch gopïo'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

Ffactorau gwaith boddhaol **Taflen adnoddau 2**

Cymorth â gofal plant	Oriau hyblyg
Cynnydd mewn gyrfa	Contract sy'n pennu isafswm oriau yr wythnos
Tâl gwyliau	Swydd nad yw'n cynnwys goramser heb dâl
Swydd heb wahaniaethu	Rheolwr cefnogol
Amgylchedd gwaith diogel	Cyflog teg o gymharu â swyddi tebyg
Y Cyflog Byw Go lawn	Addysg a chymwysterau
Oriau rheolaidd a rhagweladwy	Swydd hawdd ei chyrraedd
Gallu mynegi barn wrth reolwyr	Cyfle i ddysgu sgiliau newydd
Amser ar gyfer diddordebau	Gweithle cyfeillgar
Pensiwn	Absenoldeb salwch

Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch gopïo'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

Ffactorau gwaith boddhaol, yn ôl rhyw **Taflen adnoddau 3**

Ffactorau y mae menywod yn eu gwerthfawrogi'n fwy	**Ffactorau y mae dynion yn eu gwerthfawrogi'n fwy**
Rheolwr llinell cefnogol	Cael cyflog teg o gymharu â swyddi tebyg
Cymorth â dychwelyd i'r gwaith ar ôl absenoldeb	Oriau rheolaidd a rhagweladwy
Buddion ychwanegol y tu hwnt i'r cyflog	Gwaith nad yw'n cynnwys oriau eithafol
Hyblygrwydd o ran dewis oriau gwaith	Cael cyflog teg o gymharu â staff uwch
Swydd hawdd ei chyrraedd	

Codwyd y ffactorau gwaith boddhaol a'r ffactorau gwaith boddhaol yn ôl rhyw o'r ddogfen: Stuart, F., Hartwig, P. a Wright, S. (2016) Decent Work for Scotland's Low-Paid Workers: A Job to Be Done, Adroddiad Partneriaeth UWS-Oxfam â chymorth Sefydliad Ymchwil Cyflogaeth Prifysgol Warwick, Rhydychen: Oxfam GB, policy-practice.oxfam.org.uk/publications/decent-work-for-scotlands-low-paid-workers-a-job-to-be-done-619740

Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch gopïo'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.